Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 28 Medi 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

20(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Cysylltiadau Rhynglywodraethol

(45 munud)

4 Datganiad gan Weinidog yr Economi: Y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chronfa Codi'r Gwastad

(45 munud)

5 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Amgylchedd

(45 munud)

NDM7781 – Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai'r darpariaethau ym Mil yr Amgylchedd, i'r graddau y maent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gael eu hystyried gan Senedd y DU.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2021 a 3 Medi 2021, yn y drefn honno, yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil yr Amgylchedd (Saesneg yn unig)

Dogfennau Ategol

Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith *(Saesneg yn unig)*

6 Dadl: Defnyddio Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant i fynd i'r afael â diogelwch tomenni glo yng Nghymru

(60 munud)

NDM7782 – Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i gyflawni ei chyfrifoldebau o ran cymeradwyo rhaglen gyllid ar gyfer adfer ac adennill tomenni glo yng Nghymru a'u haddasu at ddibenion gwahanol.

Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:

Gwelliant 1 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu 'Lywodraeth y DU i gyflawni ei chyfrifoldebau' a rhoi 'Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gyflawni eu cyfrifoldebau' yn ei le.

7 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 29 Medi 2021